

Nawr yw'r amser i siarad am roi organau
Time to talk about organ donation



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013

Adroddiad a osodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru o dan Adran 2.(3)

Rhagfyr 2017

Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013: Adroddiad a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Reol Sefydlog

Cyflwyniad

1. Rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 (“y Ddeddf”) ar 10 Medi 2013. Mae'r Ddeddf wedi creu system o gydsynio i roi organau ar ôl marw yng Nghymru. Ar 1 Rhagfyr 2015, mabwysiadodd Cymru system feddal o optio allan o roi organau, neu “gydsyniad tybiedig”. Mae hyn yn golygu y gellir tybio bod pobl yn cydsynio i roi organau oni bai eu bod wedi nodi'n wahanol, a chânt eu trin fel pe na bai ganddynt wrthwynebiad i roi organau ar ôl marw. Drwy newid y ddeddfwriaeth yn y modd hwn, ac wrth i gymdeithas ddechrau ystyried mai dyma'r ‘norm’, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gweld cynnydd, dros gyfnod, yn y nifer sy'n rhoi organau.
2. Er na ddaeth y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Ddeddf i rym tan 1 Rhagfyr 2015, cychwynnodd rhai adrannau ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol gan gynnwys Adran 2, yn fwyaf arbennig, sy'n ymwneud â dyletswydd Gweinidogion Cymru i hysbysebu'r trefniadau sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf.
3. Hefyd, o dan Adran 2 (3) o'r Ddeddf, mae gorfodaeth ar Weinidogion Cymru i baratoi adroddiad blynyddol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am bum mlynedd o fis Medi 2013 ymlaen a bydd yr adroddiadau hynny'n ymdrin â'r gwaith a wnaed i:
 - Hyrwyddo trawsblannu fel ffordd o wella iechyd pobl yng Nghymru;
 - Darparu gwybodaeth am drawsblannu a chodi ymwybyddiaeth o drawsblannu;
 - Rhoi gwybod i'r cyhoedd am amgylchiadau pan dybir bod pobl wedi cydsynio i'w horganau gael eu trawsblannu os nad ydynt wedi trafod neu gofrestru eu dymuniadau; a
 - Sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael i fyrddau iechyd lleol yn cynnwys y sgiliau a'r cymwyseddau arbenigol sy'n ofynnol at ddibenion y Ddeddf hon.
4. Yr adroddiad hwn yw'r pedwerydd o bump o adroddiadau blynyddol sy'n amlinellu'r gwaith a wnaed i hybu hyn. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 15 Tachwedd 2016 ac 14 Tachwedd 2017.

Cefndir

5. Mae Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yn darparu fframwaith ar gyfer cyflwyno system cydsynio i roi organau. Caiff y system hon ei galw'n system “optio allan meddal” neu “gydsyniad tybiedig”. Mae'r gyfraith yn gyfrwng i ysgogi newid diwylliannol mewn ymddygiad ac agweddau tuag at gynyddu'r nifer sy'n cydsynio i roi organau.

6. Er mwyn rhoi'r system ar waith yn ddiraffferth ac yn llwyddiannus, trefnwyd ymgyrch eang i roi gwybodaeth i'r cyhoedd ac i sicrhau bod poblogaeth Cymru yn ymwybodol o'r newidiadau ac yn deall sut yr oeddent yn effeithio arnynt.
7. Prif swyddogaeth yr ymgyrch gyfathrebu a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2013 a mis Mawrth 2016 oedd: hysbysu pobl am y newid yn y ddeddfwriaeth; esbonio'n glir y dewisiadau sydd ar gael wrth gofrestru penderfyniad am roi organau (cydsynio neu wrthod) a goblygiadau peidio â chofrestru penderfyniad, pan dybir bod unigolyn wedi cydsynio. Fodd bynnag, gwnaed y gwaith yng nghyd-destun cyffredinol negeseuon cadarnhaol am roi organau a'r gwahaniaeth y gall ei wneud i fywydau unigolion a'u teuluoedd. Roedd pobl hefyd yn cael eu hannog i drafod eu penderfyniad gyda'u hanwyliaid.
8. Fis Ebrill 2016 ymlaen, canolbwyntiwyd ar atgoffa pobl o'u dewisiadau yn ogystal â'u hannog i drafod eu penderfyniad gyda'u hanwyliaid.
9. Roedd rhywfaint o ddryswch o hyd ymhlith y cyhoedd ynglŷn â rôl y teulu felly, yn 2017, ac ar sail y dystiolaeth ddiweddaraf, penderfynwyd symud pwyslais y gwaith cyfathrebu i annog pobl i egluro'u dymuniadau o ran rhoi organau, ac i drafod eu penderfyniad â'u hanwyliaid. Y nod yw ymdrin â'r problemau sy'n codi pan fydd y teulu'n anwybyddu dymuniad eu hanwyliaid i roi eu horganau, ac yn gwrthod derbyn system sy'n seiliedig ar gydsyniad tybiedig. Mae'n ceisio codi ymwybyddiaeth o rôl teuluoedd/partneriaid yn y broses o anrhydeddu penderfyniad eu hanwyliaid, yn ogystal ag annog pobl i ddweud wrth eraill am eu penderfyniad.

Amcanion

10. Dyma amcanion polisi pwysicaf y ddeddfwriaeth:

- Cynyddu nifer yr organau sydd ar gael i'w trawsblannu;
- Creu amgylchedd lle'r ystyrir mai rhoi organau yw'r norm cymdeithasol.

11. Dyma amcanion polisi'r ymgyrch gyfathrebu bresennol:

- Lleihau nifer y teuluoedd sy'n anwybyddu dymuniad a gofrestrwyd i roi organau neu'r teuluoedd nad ydynt yn cefnogi'r system sy'n seiliedig ar gydsyniad tybiedig;
- Gwella cyfraddau rhoi organau;
- Cynyddu'r nifer sy'n rhoi organau a nifer y trawsblaniadau;
- Cynyddu'r nifer sy'n cofnodi penderfyniad naill ai ar y gofrestr rhoi organau neu drwy ddweud wrth eu teulu neu eu ffrindiau.

12. Amcanion cyfathrebu:

- Cynyddu'r nifer sy'n trafod eu penderfyniad i roi organau (51% ar hyn o bryd) â'u hanwyliaid – gall hyn gynnwys eu teuluoedd, eu partneriaid neu eu ffrindiau;
- Sicrhau bod pobl yn parhau i ddeall eu dewisiadau o dan y system cydsyniad tybiedig (73% ar hyn o bryd).

Y gyllideb

13. Cododd y gyllideb ar gyfer yr holl waith cyfathrebu i £350,000 er mwyn talu am yr ymgyrch hysbysebu newydd (£200,000 oedd y gyllideb yn 2015-16).

Y dull

14. Dechreuodd yr ymgyrch drwy gynnal gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus yn ystod Wythnos Rhoi Organau (4-10 Medi) ac yna cynhaliwyd ymgyrch amlsianel ar y cyfryngau torfol – gyda chymorth cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau cymdeithasol. Lansiodd yr ymgyrch hon ar 1 Tachwedd 2017.

Rydym wedi parhau i ddefnyddio astudiaethau achos fel rhan o'r gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus gan fod y rhain wedi llwyddo i ledaenu'r negeseuon.

Y prif negeseuon

- Mae'n bwysig trafod eich penderfyniad i roi organau gyda'ch teulu.
- Byddai'ch teulu bob amser yn rhan o unrhyw drafodaeth ynghylch bwrw ymlaen i ddefnyddio'ch organau. Mae'n bwysig eu bod yn gwybod am eich penderfyniad er mwyn iddynt fedru ei anrhydeddu.
- Gallwch gofrestru penderfyniad unrhyw adeg drwy ffonio 0300 123 23 23, drwy fynd i www.rhoiorganau.org neu drwy ddweud wrth eich teulu a'ch ffrindiau.

Galw ar bobl i weithredu

15. Mae deunyddiau ymgyrchu newydd (hysbysebion ar y teledu a'r radio) yn annog pobl i fynd i wefan Rhoi Organau Cymru.

Y cyfeiriad gwe yw www.rhoiorganau.org a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol yw: Twitter @OrgDonationCYM a Facebook @Rhoi Organau Cymru.

Y prif lwyddiannau

Cysylltiadau cyhoeddus

16. Roedd gwaith cysylltiadau cyhoeddus, gan gynnwys ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol, yn mynd rhagddo drwy gydol 2016-17.

Nod y negeseuon oedd sicrhau bod pobl Cymru yn parhau i ddeall y dewisiadau a oedd ganddynt o ran rhoi organau; annog pobl i drafod eu penderfyniad â'u hanwyliaid; a'u hannog i gofrestru eu penderfyniad. Mae storïau rhagweithiol yn cael eu lledaenu'n gyson ar y cyfryngau cenedlaethol a lleol a hynny ar-lein, mewn print ac ar y cyfryngau darlledu. Mae'n cefnogi'r gwaith hysbysebu drwy

gyflwyno straeon am bobl sydd wedi elwa o'r system rhoi organau a'r broses drawsblannu. Mae'r astudiaethau achos o bobl go iawn i'w gweld yn yr adran "Eich Straeon" ar y wefan.


Y wefan

17. Gwefan yr ymgyrch yw'r prif ddull o alw ar bobl i weithredu, ac mae'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am roi organau a'r system newydd yng Nghymru. Mae'r graffiau a ganlyn yn dangos faint sydd wedi edrych ar y wefan dros y flwyddyn ddiwethaf.


Mae dros 352,898 wedi edrych ar y wefan ers ei lansio, ac roedd 84% o'r rhain yn gwneud hynny am y tro cyntaf.

Rhwng 15 Tachwedd 2016 a 14 Tachwedd 2017, edrychodd 40,376 ar y wefan ac roedd 85.5% o'r rhain yn gwneud hynny am y tro cyntaf.


Tachwedd – Rhagfyr 2016



Ionawr – Mai 2017



Mehefin – Tachwedd 2017



Deunyddiau gwybodaeth

18. Diweddarwyd y daflen wybodaeth A5 ddwyieithog i annog pobl i drafod eu penderfyniad â'u teuluoedd. Rydym wedi parhau i hyrwyddo a dosbarthu amrywiaeth o ddeunyddiau a gynhyrchwyd mewn fformatau gwahanol a hygyrch. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau hawdd eu darllen, mewn braille neu brint bras, fideo Iaith Arwyddion Prydain yn ogystal â deunyddiau mewn amrywiaeth o ieithoedd ethnig lleiafrifol.

Y cyfryngau cymdeithasol

19. Defnyddir Facebook a Twitter i hyrwyddo'r ymgyrch yn ddwyieithog. Byddwn yn ymateb i sylwadau a chwestiynau os yw hynny'n briodol a hynny er mwyn helpu pobl i ddeall y system. Caiff y dudalen Facebook ei hyrwyddo o hyd drwy hysbysebu. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran lledaenu'r neges yn ehangach. Cynyddodd y nifer a oedd yn 'hoffi' y dudalen o dros 4,000 (yn ôl yr ystadegau ar gyfer 13/10/14) i 16,866 (14/11/2017). Roedd cydberthynas rhwng cyfnodau hysbysebu ar Facebook a'r nifer a ddangosodd eu bod yn 'hoffi' y dudalen.

Mae gan ein sianedl Twitter 1,317 o ddilynwyr yn awr (yn ôl yr ystadegau ar gyfer 14/11/2017).

Twitter: @OrgDonationCYM

Facebook: Rhoi Organau Cymru

Ymgysylltu â rhanddeiliaid

20. Anfonwyd pecyn ymgyrchu at grwpiau o rhanddeiliaid a phartneriaid cyn yr wythnos rhoi organau. Cymerodd amrywiaeth o rhanddeiliaid ran mewn telegynhadledd ym mis Medi pan gynhaliwyd sesiwn holi ac ateb yn ymwneud â'r ymgyrch hysbysebu newydd.

21. Cyhoeddwyd e-fwletin i rhanddeiliaid bob chwarter yn 2016-17. Caiff y cylchlythyr ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru/rhoiorganau a'i anfon i tua 370 o bobl.

Wythnos Rhoi Organau, 4-10 Medi 2017

22. Cynhaliwyd gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus yn bennaf yn ystod yr wythnos gan ganolbwyntio ar bwysigrwydd trafod â'r teulu, a defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau wyneb yn wyneb a matiau diodydd wedi'u brandio i dargedu pobl ifanc 18-34 oed yn grwpiau cymdeithasol C2SE a phobl ifanc NEET.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys:

Cyfryngau cymdeithasol	<ul style="list-style-type: none">• Instagram - 5 stori ddwyieithog wedi'u brandio• gyda gwariant hyrwyddo penodol;• Snapchat - geohidlydd dwyieithog i fyfyrwyr• prifysgol Caerdydd;• Facebook/ Twitter - 24 o negeseuon dwyieithog• ym mis Medi gyda gwariant hyrwyddo penodol
------------------------	---

Sioeau teithiol mewn gweithleoedd	<p>8 digwyddiad ar hyd a lled Cymru mewn gweithleoedd mawr sy'n cyflogi canran uchel o bobl ifanc 18-34 oed. Roedd y rhain yn cynnwys stondinau a baneri arddangos ac roedd nyrsys SNOD (mewn tri lleoliad) a chriw hyrwyddo hefyd yn bresennol. Roedd taflenni, beiros, mygiau a matiau diodydd ar gael i'r rhai a oedd yn ymweld â'r standin ac roedd cyfle iddynt gofrestru ar-lein ar iPad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nwy Prydain • DVLA • Go Compare • Admiral • BT • Cyngor Sir Caerfyrddin • Cyngor Sir Powys • MoneyPenny
Partneriaeth ag ymgyrch 'I Loves the 'Diff'	<p>Eitemau wedi'u brandio ar y cyd rhwng Rhoi Organau Cymru ac IITD gan gynnwys matiau diodydd a phosteri'n seiliedig ar ddyluniad llyfrau Taffywood:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 330 o glybiau rygbi drwy Gymru • 200 o ganolfannau hamdden yn y De
Astudiaethau achos	<p>Fideo sy'n dangos astudiaethau achos a chyfweliad gyda Mike Stephens, llawfeddyg trawsblannu; Eiddwen Glyn (Nyrs trawsblannu); ynghyd ag astudiaethau achos ysgrifenedig a lluniau o Jennifer Jones (sydd wedi cael trawsblaniad); Luke Morgan (sydd wedi cael trawsblaniad); a Gail Butterill (teulu rhywun a roddodd organau) .</p>
Datganiad i'r wasg	<p>Datganiad i'r wasg genedlaethol a oedd yn sôn am ddwy astudiaeth achos; 5 datganiad i'r wasg ranbarthol a oedd yn cynnwys astudiaethau achos.</p>
Pecyn ymgyrchu i randdeiliaid	<p>Pecyn electronig o adnoddau ymgyrchu y gellir eu lawrlwytho a anfonwyd at 302 o randdeiliaid.</p>

23. Y gynulleidfa y llwyddwyd i'w chyrraedd

- Llwyddwyd i ledaenu'r negeseuon i 14.5 miliwn o bobl drwy lansio'r ymgyrch ddwyieithog ar y cyfryngau yn ystod Wythnos Rhoi Organau (drwy Gymru a'r DU)
- Cafwyd 16 munud o ddarlledu ar y cyfryngau darlledu cenedlaethol.
- Cafodd dros 24,000 o weithwyr gyfle i weld/clywed am yr ymgyrch drwy'r sioeau teithiol.
- Cafodd 150,000 o bobl ifanc 18-34 oed yn ne-ddwyrain Cymru gyfle i weld/clywed am yr ymgyrch bob wythnos drwy roi posteri a matiau diodydd mewn lleoliadau hamdden.
- Cafodd 150,000 o bobl ifanc 18-34 oed drwy Gymru gyfle i weld/clywed am yr ymgyrch bob wythnos drwy roi posteri a matiau diodydd mewn clybiau rygbi.
- Llwyddwyd i gyrraedd cynulleidfa o dros 205,000 (gan dargedu pobl ifanc 18-34 oed) drwy straeon Instagram (175,334 S a 30,083 C).
- Cafodd 480 o fyfyrwyr 18-34 oed ym Mhrifysgol Caerdydd gyfle i weld/clywed geohidlydd Snapchat (yn uniongyrchol ac wrth i ffrindiau ei rannu â nhw).
- Llwyddwyd i gyrraedd cynulleidfa o dros 140,000 drwy gyfrwng Facebook a Twitter ym mis Medi.

24. Ymgysylltu

- Cyfradd agor o 23% ac 83 clic ar gynnwys y pecyn ymgyrchu Saesneg ac 19% a 5 clic ar gynnwys y pecyn ymgyrchu Cymraeg.
- Cafwyd sgwrs o safon gyda 523 o bobl a ddaeth i standin y sioe deithiol. Rhoddwyd 1,800 o eitemau wedi'u brandio i weithwyr. Cofrestrodd 15 i roi organau tra oeddent yn ymweld â'r standin.
- Cafwyd 2,686 clic uniongyrchol ar y dudalen gofrestru ar wefan yr ymgyrch drwy gyfrwng straeon Instagram (2,263 S a 423 Cn).
- Llwyddwyd i gyrraedd cynulleidfa o 41,480 ar Facebook (hoffi, sylwadau, rhannu, gwyllo'r fideo).
- Llwyddwyd i gyrraedd cynulleidfa o 2,181 ar Twitter (aildrydar, hoffi, gwyllo'r fideo).

25. Effaith

- Cofrestrodd 5,486 o'r newydd yng Nghymru ym mis Medi 2017 (4,635 yn optio i mewn ac 851 yn optio allan). Mae hyn yn cymharu â 4,000 a gofrestrodd o'r newydd ym mis Awst 2017 (3,519 yn optio i mewn a 481 yn optio allan).
- Cynnydd o 31% yn y sesiynau ar wefan yr ymgyrch a chynnydd o 33% yn y nifer a edrychodd ar y dudalen ar y we (ffigurau Medi '17 v Awst '17).

26. Yr agweddau ar yr ymgyrch a berfformiodd orau yn ystod Wythnos Rhoi Organau

Fideo byr o gyfweiliad â nyrs trawsblannu (Eiddwen Glyn)

- 20,902 wedi'i weld
- 7,052 wedi ymateb (hoffi, rhoi sylwadau, rhannu, gwylio'r fideo)

Astudiaeth achos Jennifer Jones

- 9,881 wedi'i gweld
- 5,672 wedi ymateb (hoffi, rhoi sylwadau, rhannu, gwylio'r fideo).

Pretty Vicious (Merthyr teen band)

- 7,699 wedi'i weld
- 3,600 wedi ymateb (hoffi, rhoi sylwadau, rhannu).

Fideo byr o gyfweiliad â llawfeddyg trawsblannu (Mike Stephens)

- 8,369 wedi'i gweld
- 3,145 wedi ymateb (hoffi, rhoi sylwadau, rhannu, gwylio'r fideo).

Astudiaeth achos Luke Morgan

- 4,734 wedi'i gweld
- 2,221 wedi ymateb (hoffi, rhoi sylwadau, rhannu, gwylio'r fideo).

Enghreifftiau o'r gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod yr Wythnos Rhoi Organau a'r sylw a gafwyd yn y wasg





FROM USK TILL DAWN

QUENTIN TAFFYTINO

Gwnewch amser i drafod eich penderfyniad rhoi organau gyda'ch anwyliaid.

Make time to talk about your organ donation decision with Loved ones.



SAVING PRIVATE RHIAN

STEFFAN AP SPIELBERG

Mae rhoi organau'n achub bywydau hefyd.

Organ donation saves lives too.



MIGHTY MORPHIN POWYS RANGERS

HAIM SOSBAN

S'dim rhaid gwisgo clogyn i fod yn uwcharwr. Mae rhoi organau'n achub bywydau.

Not all super heroes wear capes. Organ donors save lives too.



WE NEED TO TALK ABOUT CEFN

LIONEL SHRIVER-JONES

Hefyd, mae angen i chi siarad am eich penderfyniad rhoi organau gyda'ch anwyliaid.

You also need to talk about your organ donation decision with loved ones.


Mae Christian Amodeo, o 'I Loves The 'Diff', yn rhoddwr organau byw. Yn ddiweddar, fe roddodd ei un o'i arenau i'w wraig Helena. Cofrestrwch yma RhoiOrganau.org Rhowch wybod i'ch teulu #CaelySgwrs



Rhoi Organau Cymru
Organ Donation Wales

Christian Amodeo, of 'I Loves the 'Diff', is a living organ donor. He recently donated a kidney to his wife Helena.

Register at OrganDonationWales.org
Tell your family #HaveTheChat



Hysbysebu: lansiwyd yr ymgyrch ar 1 Tachwedd 2017

27. Nod yr ymgyrch oedd ymdrin â'r problemau sy'n codi pan fydd y teulu'n anwybyddu dymuniad eu hanwyliaid i roi eu horganau, ac yn gwrthod derbyn system sy'n seiliedig ar gydsyniad tybiedig. Mae'n ceisio codi ymwybyddiaeth o rôl teuluoedd/partneriaid yn y broses o anrhydeddu penderfyniad eu hanwyliaid, yn ogystal ag annog pobl i ddweud wrth eraill am eu penderfyniad.

Tystiolaeth

28. Cyhoeddodd Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG ddata ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17, a hynny am y tro cyntaf ers cyflwyno'r system cydsyniad tybiedig, ac mae'n dangos y canlynol:

- Cafwyd 21 o achosion pan benderfynodd teuluoedd anwybyddu dymuniad a gofrestrodd perthynas iddynt ar y gofrestr rhoi organau, neu pan benderfynodd teulu wrthod derbyn y system cydsyniad tybiedig. O gofio bod pawb sy'n rhoi organau'n rhoi 3.1 organ ar gyfartaledd, collwyd cyfle i drawsblannu 65 o organau ychwanegol.
- Cafwyd organau gan 61 o bobl a fu farw yng Nghymru, sef tri yn llai nag a gafwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- Trawsblannwyd 187 o organau, o'i gymharu â 214 yn 2015-16.
- Roedd 235 o bobl yn aros am drawsblaniad, sef cynnydd o 27 ers 2015-16. Cafwyd organau gan 36 o roddwyr byw, sef chwech yn fwy nag a gafwyd yn 2015-16.
- Bu farw 22 o bobl tra oeddent ar y rhestr aros o'i gymharu â 27 yn 2015-16.

Ymchwil i agweddau cymdeithasol

29. Cafodd cwestiynau am roi organau eu cynnwys yn Arolygon Omnibws Cymru (a gynhaliwyd gan Beaufort Research) rhwng 2012 a 2017. Mae'n debyg bod modd priodoli'r diffyg cefnogaeth gan y teulu i'r ffaith bod y nifer sy'n trafod eu penderfyniad â'u hanwyliaid, yn ôl yr arolwg, wedi parhau'n gymharol isel er gwaethaf cynnydd o 38% i 51% rhwng mis Mehefin 2012 a mis Mawrth 2017.

Bydd yr ymgyrch newydd yn canolbwyntio ar rôl teuluoedd yn y broses a phwysigrwydd sgwrsio â theuluoedd/partneriaid.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal ymchwil drwy ddefnyddio Arolwg chwarterol Omnibws Cymru er mwyn deall lefel yr ymwybyddiaeth a faint sy'n deall y priif negeseuon.

30. Yn ôl canlyniadau'r Arolwg Omnibws a gynhaliwyd fis Mawrth 2017, roedd:

- 51% o ymatebwyr wedi trafod eu dymuniadau â'u hanwyliaid. Roedd hyn wedi codi o 48% ym mis Mawrth 2016.

- Os yw person yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, roedd 74% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid trin hynny fel penderfyniad i roi organau, ac y dylid annog teuluoedd i dderbyn hynny. Roedd y ffigwr yn llai na'r 75% a gofnodwyd ym mis Mawrth 2016.
- Roedd 73% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r newidiadau yn y system rhoi organau. Roedd y ffigwr yn is na'r 82% a gofnodwyd ym mis Mawrth 2016.

Mae'r adroddiadau diweddaraf wedi'u cyhoeddi yma:

<http://gov.wales/statistics-and-research/public-attitudes-organ-donation/?skip=1&lang=cy>

31. O ran proffiliau oed, mae data'r Arolygon Omnibws a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2016 yn dangos mai pobl ifanc 18-34 oed yw'r grŵp sydd lleiaf tebygol o fod wedi trafod eu penderfyniad i roi organau gydag aelod o'r teulu (44% - Mehefin 2016).

Er bod y cyfraddau'n uwch ymhlith pobl 35-54 oed (55%), bydd y grŵp oedran hwn yn cynnwys aelodau o'r teulu / rhieni y mae angen iddynt wybod ac anrhydeddu penderfyniad eu hanwyliaid.

Mae'r wybodaeth lawn yn yr adroddiad:

<http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160905-survey-public-attitudes-organ-donation-waves-10-11-12-cy.pdf>

32. Mae'r ymgyrch newydd yn annog pobl i **“drafod rhoi organau, neu gall rywun arall siarad ar eich rhan”**.

Math o hysbyseb	Sianeli penodol
Teledu - rhwng 1 Tachwedd a 17 Rhagfyr 2017	ITV S4C 4oD Sky Digital ITV Hub
Radio masnachol	Heart South Wales Heart North Wales The Wave Radio Ceredigion
Ar-lein	Hysbysebion digidol Facebook Twitter Instagram Google

Sylw yn y wasg (1 Tachwedd)

Dyddiad	Gweithgaredd	Sylw
01/11/17	Erthygl hanner tudalen ar dudalen newyddion ar-lein am y cyfweiliad â Nyrs Arbenigol - Rhoi Organau	BBC.co.uk/Wales
01/11/17	Stori newyddion a chyfweiliad â'r llawfeddyg Mike Stephens (5 munud o hyd)	BBC Radio Wales Good Evening Wales
01/11/17	Stori newyddion a chyfweiliad â'r Prif Swyddog Meddygol, Frank Atherton, ac astudiaethau achos Joanna Duckworth a Michelle Powell (3 munud o hyd)	BBC Wales Today
01/11/17	Stori newyddion a chyfweiliad ag Anna Louise Bates, hysbyseb 30 eiliad o hyd	ITV Wales
01/11/17	Stori newyddion am hysbyseb yn ymwneud ag astudiaeth achos a nyrs SNOD leol	SW Argus Online
01/11/17	Stori newyddion am hysbyseb yn ymwneud ag astudiaeth achos a nyrs SNOD leol	SW Argus
01/11/17	Stori newyddion am hysbyseb yn ymwneud ag astudiaeth achos a nyrs SNOD leol	Daily Post Online
01/11/17	Stori newyddion am hysbyseb yn ymwneud ag astudiaeth achos a nyrs SNOD leol	Swansea Sound Online
01/11/17	Stori newyddion am hysbyseb yn ymwneud ag astudiaeth achos a nyrs SNOD leol	Deeside.com
02/11/17	Stori newyddion am yr hysbyseb a'r ymgyrch	South Wales Evening Post

Enghreiffiau o hysbysebu


33. Mae'r hysbysebion teledu i'w gweld ar ein tudalennau Facebook a Twitter, ac mae'r fideo i'w gweld ar Youtube:

<https://www.youtube.com/watch?v=dT6Z0ipNVIY>

Gwybodaeth ddigidol am Roi Organau

34. Rhwng 1 – 14 Tachwedd 2017 (wythnos 1 a 2 o'r ymgyrch i dargedu Teuluoedd sy'n anwybyddu penderfyniad)

Traffig i wefan yr ymgyrch



Yn ystod pythefnos gyntaf yr ymgyrch:

- Cafwyd 5,376 sesiwn ar wefan yr ymgyrch a 4,748 o ddefnyddwyr. Roedd hyn yn gynnydd o 400% bron o'i gymharu â'r bythefnos flaenorol.
- Roedd 86.6% o'r rhai a edrychodd ar y wefan yn gwneud hynny am y tro cyntaf o'i gymharu â 82.5% yn ystod y bythefnos flaenorol.


Cawsom **3684** clic drwy gyfrwng ein hysbysebion:

- 2,155 clic drwy hysbysebu ar Facebook
- 1,015 clic drwy hysbysebu ar Twitter
- 291 clic drwy hysbysebu ar Google
- 162 clic drwy gyfrwng hysbysebion mewn erthyglau (hysbysebion sy'n ymddangos mewn erthyglau ar wefannau eraill)
- 61 clic drwy hysbysebu ar Instagram.


Facebook

Total Reach

The number of people who were served any activity from your Page, including your posts, posts to your Page by other people, Page like adverts, mentions and check-ins.





Reactions, comments, shares and more
These actions will help you reach more people.



Twitter

Yn ystod y cyfnod hwn, llwyddwyd i gael:

- 162,300 o argraffiadau; 1,800 o gliciau dolen; a chafodd 193 o negeseuon eu hail-drydar



YouTube

Cyhoeddwyd ein hysbyseb teledu newydd ar 1 Tachwedd ar Facebook a sianel YouTube Llywodraeth Cymru. Mae'r ffigurau isod yn dangos y nifer a wylodd yr hysbyseb ar YouTube yn unig.



Hysbyseb Saesneg ar Facebook:
13,300 wedi'i gweld / 3,500 munud i gyd
Hysbyseb Saesneg ar YouTube:
818 wedi'i gweld / 409 munud i gyd

Hysbyseb Gymraeg ar Facebook:
1,300 wedi'i gweld / 333 munud i gyd
Hysbyseb Gymraeg ar YouTube:
115 wedi'i gweld / 60 munud i gyd

Gweithgareddau cyfathrebu a dargedwyd at grwpiau penodol

Myfyrwyr

35. Rydym wedi parhau â'r trefniant sydd gennym gydag UCAS i gyfathrebu'n uniongyrchol â myfyrwyr sydd wedi derbyn lle ym mhrifysgolion Cymru. Mae hyn yn cynnwys e-bost uniongyrchol a llythyr i'w cyfeiriad cartref i sicrhau bod eu teulu'n gwybod am y sefyllfa.

Anfonwyd y llythyr a'r e-bost at bron 8,000 o fyfyrwyr o'r tu allan i Gymru. Agorwyd yr e-bost gan bron 58% o'r myfyrwyr a chliciodd dros 2% ar y linc.

Ategwyd y gwaith hwn gan waith cysylltiadau cyhoeddus â'r prifysgolion a'r colegau i'w hannog i ddefnyddio'u sianeli presennol fel y cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau.

Pobl ifanc 16-18

36. Caiff llythyr ei anfon at bawb sydd ar fin troi'n 18 oed. Mae'n esbonio'r system newydd a'u dewisiadau ac yn eu hannog i siarad â'u hanwyliaid.

Rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Hydref 2017, anfonwyd dros 36,000 o lythyrau.

Pecyn ysgolion (cyfnodau allweddol 3 a 4)

37. Rydym wedi paratoi pecyn dwyieithog ar y cyd ag NHSBT ar gyfer disgyblion 11-15 oed. Roedd y pecyn, a gwblhawyd fis Medi 2017, yn cynnwys astudiaethau achos ysgrifenedig ac ar ffurf fideo, cynlluniau gwersi ac adnoddau. Ar hyn o bryd, rydym yn treialu'r pecyn mewn ysgol. Byddwn yn addasu'r pecyn yn ôl yr adborth a gawn cyn ei lansio drwy Gymru ddechrau 2018 mae'n debyg.

Grwpiau ffydd

38. Byddwn yn parhau i gysylltu â grwpiau perthnasol i'w hannog i gefnogi'r ymgyrch a chynnig deunyddiau a/neu gynnwys ar gyfer eu sianeli cyfathrebu.

Cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig

39. Byddwn yn gweithio i adolygu ac ychwanegu at ein cysylltiadau a'n hadnoddau presennol i dargedu'r cymunedau hyn. Mae angen ymgymryd â rhagor o waith ymgysylltu ac anfon negeseuon wedi'u targedu'n benodol a chaiff cynllun ar wahân ei ddatblygu ar gyfer ail flwyddyn yr ymgyrch hysbysebu bresennol.

Sgiliau a chymwyseddau yn y GIG

40. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, yr awdurdod iechyd arbennig sy'n gyfrifol am reoli'r broses rhoi organau yng Nghymru, i sicrhau bod y broses o reoli'r newid yn y system gydsynio'n weithredol yn cydymffurfio â Chod Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol ar Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013.

Mae nyrsys arbenigol mewn rhoi organau (SNOD) yn parhau i gael eu hyfforddi i sgwrsio am roi organau ac mae'r gwaith o'u cynorthwyo i reoli'r sgwrsiau hyn yn parhau. Dyma'r gwaith a aeth rhagddo yn ystod 2016-17:

- Dulliau cyfathrebu gwell rhwng y Gogledd a'r De ynghylch cysondeb a threfniadau archwilio;
- Trafodaethau am y ffordd orau o archwilio sefyllfaoedd cymhleth;
- Cyfarfod i rannu arfer ac i drafod sut i ddechrau'r sgwrs ag unigolion ac i ddysgu o brofiad;
- Mwy o waith yn ymwneud â chyfathrebu. Cafwyd cyfleoedd i weithio gyda hwyluswyr y tu allan i'r GIG – cafwyd adborth cadarnhaol iawn.

Gwerthuso

41. Mae'r gwaith ymchwil a gwerthuso'n ymwneud yn benodol â'r gwaith cyfathrebu yn cynnwys arolygon o ymwybyddiaeth ac agweddau'r cyhoedd.

Arolwg o agweddau'r cyhoedd tuag at roi organau: ton 13 ac 14

42. Rydym wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru er mwyn cael gwybodaeth reolaidd am ymwybyddiaeth y cyhoedd ac agweddau tuag at y system rhoi organau. Caiff data ei gasglu'n rheolaidd rhwng Mehefin 2012 a Mawrth 2020. Cynhaliwyd ton 13 (1,035 o ymatebwyr) rhwng 27 Chwefror a 12 Mawrth 2017 a thon 14 (1,008 o ymatebwyr) rhwng 18 Medi ac 1 Hydref 2017.

Y prif gasgliadau

- Yn nhon 13, dywedodd llai na thri chwarter o'r ymatebwyr (73 y cant) eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau yn y system rhoi organau, ond gwelwyd y ganran hon yn gostwng i 70 y cant yn nhon 14. Mae'r ffigurau hyn yn dangos gostyngiad mewn ymwybyddiaeth ddigymell o'r ganran uchaf o 82 y cant yn nhon 11 (Mawrth 2016).
- Ar ôl gweld disgrifiad o'r system newydd, dywedodd tua wyth o bob deg o ymatebwyr (81 y cant yn nhon 13; 79 y cant yn nhon 14) eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y newid. Mae'r ffigurau hyn yn dangos tuedd bychan ar i lawr o 84 y cant yn nhon 11 (Mawrth 2016), pan oedd ymwybyddiaeth ar ei uchaf.
- Dywedodd tua hanner yr ymatebwyr (51 y cant) yn nhon 13 eu bod wedi trafod eu dymuniadau ag aelod o'r teulu, a chododd hyn i 55 y cant yn nhon 14. Ni fu fawr o newid yn y ffigur hwn rhwng ton 1 (Mehefin 2012) a thon 6 (Mehefin 2015), sef tua phedwar o bob deg, ond mae wedi codi'n raddol ers hynny.
- Ers cyflwyno'r system feddal o optio allan:
 - roedd bron dau draean o'r ymatebwyr (64 y cant yn nhon 13, a 65 y cant yn nhon 14) wedi optio i mewn neu heb wneud dim gan eu bod yn fodlon i'r system cydsyniad tybiedig gael ei gweithredu;
 - roedd un o bob ugain o ymatebwyr (5 y cant yn nhon 13 ac 14) wedi optio allan; a
 - dywedodd tri o bob deg o ymatebwyr (30 y cant yn nhon 13 ac 14) eu bod yn dal yn ystyried eu dewisiadau; nad oeddent wedi meddwl am y peth eto; neu nad oeddent yn gwybod beth roeddent am ei wneud.

- Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd wedi cofrestru i roi organau, a oedd yn fodlon i'r system cydsyniad tybiedig gael ei gweithredu neu a oedd wedi optio allan, " A ydych wedi trafod y penderfyniad hwnnw gyda'ch teulu erioed?". Yn nhonnau 13 ac 14, dywedodd tua dau draean (65 y cant yn nhon 13 a 67 y cant yn nhon 14) eu bod wedi trafod eu penderfyniad. Mae'r ffigurau hyn yn dangos tuedd bychan ar i fyny ers i'r cwestiwn gael ei ofyn am y tro cyntaf yn nhon 11 (Mawrth 2016).

Y rhagolygon a'r blaenoriaethau

43. Cynhelir cynhadledd ar 1 Rhagfyr i weithwyr iechyd proffesiynol a rhanddeiliaid er mwyn rhannu gwybodaeth am roi organau a thrawsblaniadau yng Nghymru.

44. Asesiad o effaith – cyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2017.

45. Mae'r gyllideb gyfathrebu ar gyfer 2018-19 yn cynnwys ail gam yn yr ymgyrch newydd, tra caiff yr ymgyrch bresennol ei gwerthuso, a bydd hyn yn dechrau yn hydref 2018.

46. Caiff y strategaeth ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu â phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ei diweddarau.